YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1894. [RHIF 80

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

Y PARCH. JOHN DAVIES, ALLTYPLACA.

DYWEDODD ffwl o Undodwr unwaith wrth Father Taylor, gweinidog Bethel y Morwyr yn Boston, U.D., nad oedd eu gweinidogion hwy fel Methodistiaid Wesleyaidd ddim i'w cymharu ag eiddo'r Undodiaid mewn talent, dysgeidiaeth, a chwrtaith feddyliol. Cyffrodd hyn Father Taylor i ateb dipyn yn wresog fel hyn:—"Dodwch chwi Feibl agored yn llaw hwn a hwn, ac anialwch o eneidiau dynol o'i flaen, ac 'fe fydd yn fwy na *mateh* i holl weinidogion yr Undodiaid gyda'u gilydd." Ac mewn gwirionedd, dyna'r *test* priodol i'w gymhwyso at weinidog. Nid faint o ysgolhaig yw e', a ydyw e' wedi graddio? A ydyw e'n gynnefin â'r clasuron, y gwyddorau, ac athroniaeth, &c.? Y pwnc mawr yw, a fedr e' gyrhaedd calonau pobl; a wnaiff e' i ambell un i deimlo fod digon o nerth yn ei eiriau i newid cwrs ei fywyd, ac i ddwyn yr hwn oedd yn mhell yn agosach ato ei hun ac at Dduw? Cymhwyswch chwi at Mr. Davies, Alltyplaca, y *test* yma o ddylanwad y pregethwr yn y pwlpud ac allan o'r pwlpud, a chwi gewch allan ei fod yn wir weinidog crefydd, yn wir gymmwynaswr ei gyd-ddynion, ac wedi bod yn addurn i'r enwad y perthyna iddo am y deg mlynedd ar-hugain diweddaf. Nid yw yn proffesu ei hun yn ysgolhaig, yn llenor, yn feirniad Beiblaidd, nac yn wleidyddwr; ac ychydig iawn mae wedi geisio wneyd yn y cyfeiriadau hyny. Mae ei galon wedi bod yn ei waith fel pregethwr a gweinidog, ac mae hyny yn esponio yr effaith neillduol mae ei eiriau wedi gael dro ar ol tro ar lawer heblaw yr ysgrifenydd. Os cefais I erioed fy nwyn yn agosach ar rai adegau na'u gilydd at y presennoldeb Dwyfol, 'rwy'n sicr mai un o weddiau rhyfeddol Mr. Davies oedd yr aden a'm cludodd I yno. 'Rwyf fi wedi gwrando arno yn siarad yn y man mwyaf cyssegredig ar

y ddaear, uwchben bedd cyfaill, ac 'rwyf wedi teimlo rhyw oleuni Dwyfol yn treiddio trwy lyn y cysgodau, y bedd yn diflanu o'r golwg, yr hyn oedd farwol yn cael ei lyncu i fyny gan fywyd, a'r enaid yn cael ei ddwyn fel pe byddai i gyffyrddiad newydd â sylweddau bywyd annherfynol dyn, a nerthoedd y byd a ddaw.

Ganwyd Mr. Davies Mawrth 31ain, 1836, yn Tanycoed, ffermdy bychan ar lan y Cledlyn yn mhlwyf Llanwenog Ceredigion, bron ar bwys Brynllefrith, lle y treuliodd Dafydd Llwyd, gweinidog cyntaf Alltyplaca, y rhan fwyaf o'i oes, ac nid pell o Goedlanau, lle y ganwyd ef. Enwau ei rieni oedd John a Rachel Davies. Fel ereill sydd wedi gwneyd eu hol er daioni yn y byd yma, priodola Mr. Davies lawer o'r hyn sydd oreu ynddo i addysg ac esiampl ei fam. Yr oedd hi yn enedigol, os nad wyf yn camsynied, o ddyffryn Aeron, lle y cafodd ei dwyn i fyny yn swn pregethau John James a Dafydd Jenkin Rhys. Fel canlyniad, gwnaeth yn eiddo iddi ei hun elfenau goreu Undodiaeth fel y pregethid hi tua dechreu'r ganrif. Yn ddiamheu yr oedd y berthynas rhwng y fam a'i mab yn un anwyl a phrydferth, ac yr oedd eu cydymdeimladau crefyddol yn eu dwyn yn nes at eu gilydd o flwyddyn i flwyddyn. Clywais Mr. Davies flynyddau yn ol yn ei oriau o anobaith, yn ngwyneb ymosodiadau dinystriol y beirniaid, yn dweyd fod yr hen Feibl ag y dysgodd e' lawer o'i wersi ar liniau ei fam yn mron colli ei afael ar y byd. Mae Mr. Davies, a llawer o honom erbyn hyn, wedi dyfod i weled mai yr hen syniadau am y Beibl sydd wedi colli eu gafael, ac nid y Beibl ei hun.

Rhyw addysg afreolaidd gafodd e' yn moreu ei oes—yn yr ysgol gyda hwn yn awr, gyda'r llall bryd arall, fel yr oedd ysgolfeistri yn newid ac yn symmud. Nid ydym yn cofio enw ond un o'i ysgolfeistri yn y tymhor hwn, sef y Parch. David Jones (Dewi Elfed), gweinidog y Bedyddwyr yn Cwrtnewydd, yr hwn a aeth wedi hyny i'r Amerig. Bob yn dipyn cafodd ei osod yn egwyddorwas gyda dilledydd yn y gymydogaeth; ond fel Gwilym Marles gyda'r esgidiau, yr oedd ei ddwylaw yn ceisio ymwneyd â'r dilledyn, tra yr oedd y meddwl yn crwydro yn mhell oddiwrtho. Pregethu a phregethwyr oedd ei hoff bynciau, a gwelid yn fuan oddiwrth ei ffyddlondeb gyda'r Ysgol Sul yn Alltyplaca, a'r dyddordeb byw a deimlai yn mhobpeth a berthynai i'r achos yno, ei fod wedi ei nodi allan ar gyfer rhywbeth heblaw dyogelu tai allanol pobl. Ond *bigitian* â'r gwaith hwn fu e' (ys dywedodd Kilsby) am flynyddau, hyd nes i amgylchiadau ffafriol i droi ei wyneb yn benderfynol at y weinidogaeth. Aeth i ysgol enwog Pontshan ar yr ail o Fawrth, 1858, ac i frysio yn mlaen, derbyniwyd ef i Goleg Caerfyrddin yn Mehefin, 1860. Ennillodd le neillduol yn serch yr athrawon yno. Gwelent ei fod yn fyfyriwr oedd o ddifrif gyda'i waith, a'r gwaith hwnw ar gyfer un amcan. Ceisiodd gwrteithio â'i holl egni y myfyrdodau hyny a fuasent yn fwyaf defnyddiol iddo fel gweinidog, megys duwinyddiaeth ac athroniaeth, a dangosodd fod ganddo gymhwysderau neillduol at y ganghen ddiweddaf. Ac ymddengys i mi yn ystod ei holl yrfa hyd yn hyn fod y ddawn athronyddol yma yn un o'i nodweddion neillduol fel pregethwr.

Mae ei bregethau bob amser yn esiamplau o allu dadansoddol *(power of analysis)*. Trefna ei fater bob amser o dan raniadau priodol. Nid oes un rhaniad yn myned ar draws y llall, ond pob dernyn yn berffaith, yn *clear-cut* ar ei ben ei hun. Edrycher hefyd ar bynciau ei brif bregethau. Mae rhyw edefyn o athroniaeth yn rhedeg trwyddynt, ac yn eu gosod mewn dosparth ar eu penau eu hunain. 'Rwyf yn cofio rhai o honynt, megys "Deddf a maddeuant, "Telerau maddeuant," "Yr ymgnawdoliad," &c. Sylwer hefyd ar ei ddull yn ymwneyd â'r Beibl. Mae rhai yn edrych arno fel copi o'r meddwl Dwyfol, ac yn awdurdod anffaeledig yn holl diriogaethau ffydd ac ymarferiad. Edrycha ereill arno oddiar safle Ieithyddiaeth *(Philology)*. Er fod Mr. Davies yn gallu darllen ei Feibl Hebraeg a'i Destament Groeg yn ddigon rhwydd, ni chlywais I erioed o hono yn son am yr ieithoedd gwreiddiol fel mae arfer rhai. Yr oedd *Logos*, *ilasmos*, ac *ilasterion*, &c., mor aml yn ngeneuau yr hen broffwydi ag Amen. I ereill wed'yn mae y Beibl o bwys oddiar safle Beirniadaeth, a charant son am yr haenau amrywiol sydd yn gwneyd i fyny adeiladwaith y Pum' Llyfr; dosparthant y Salmau yn ol eu cyfnodau, a phriodolant rai o lyfrau godidocaf y Beibl i awduron mawrion anadnabyddus. Mae gwerth y Beibl yn appelio at ddynion tebyg i Matthew Arnold fel llenyddiaeth cenedl. Gosodant yn eu cloriannau farddoniaeth felus y Salmau, ehediadau seraffaidd Esaiah, arucheledd Job, acenion anobaith y Pregethwr, geiriau Dwyfol Iesu Grist, emyn cariad yr Apostol Paul, a gweledigaethau rhyfedd ac ofnadwy llyfr y Datguddiad, a cheisiant roddi iddynt eu gwerth cymhariaethol wrth ochr cynnyrchion llenyddol y byd. Nid wyf yn deall fod Mr. Davies yn gofalu rhyw lawer i edrych ar y Beibl yn un o'r dulliau yma. Câr ef ei astudio oddiar safbwynt athroniaeth crefydd, fel yn cofnodi profiad crefyddol y genedl gyfoethocaf ei doniau crefyddol a welodd y byd erioed. Edrycha yn ei oleuni ar syniadau crefyddol yn graddol ymddadblygu, nes yr addfedant yn gynhauaf gogoneddus yn mywyd ac addysg Iesu o Nazareth. Mae y Beibl yn y modd hyn yn cymmeryd ei le fel yr elfen bwysicaf yn addysg yr hiliogaeth, ac o'r safle yma mae yn gwasanaethu fel y cynnorthwy goreu i'r pregethwr.

Yn 1875, daeth i gyhoeddusrwydd neillduol trwy iddo gael ei benodi yn genadwr y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor. Treuliodd flwyddyn lafurus yn teithio ac yn pregethu mewn gwahanol fanau yn Neheudir Cymru. Mae y driniaeth a gafodd yn Llanelli yn wybyddus i bawb; ac nis gall yr amgylchiad fod yn beth dymunol i'w adgofio gan Ymneillduwyr y lle gyda'u holl dwrw am gydraddoldeb, pan nad oeddent y pryd hwnw, gan nad beth ydynt yn awr, wedi dysgu egwyddorion elfenol rhyddid crefyddol. Er gwaethaf pob gwrthwynebiad, cafodd yr had da ddyfnder daear mewn llawer man, ac mae ambell i gynhauaf wedi ei fedi oddiar hyny ar y maes hwn am fod yr "arall" yma wedi llafurio. Yn 1881—2, adeiladwyd capel newydd yn Cwrtnewydd, a gorphwysodd y baich o gasglu gan mwyaf ar ysgwyddau y gweinidog.

Llwyddodd i sicrhau dros £700, ac os ydwyf yn cofio'n iawn, agorwyd y capel, fel mae'n rheol braidd gan yr Undodiaid, yn ddiddyled. Cafodd Alltyplaca ei adnewyddu yn 1892, a chasglodd Mr. Davies at hwnw ryw £400. Nis gall neb, ond rhai cyfarwydd à'r gwaith, amgyffred y llafur, y ffwdan, a'r pryder mae casglu'r symiau uchod yn olygu; ac yr ydwyf yn llongyfarch Mr. Davies ar y ffaith fod ei ymdrechion wedi eu coroni â chymmaint o lwyddiant, ac yn dymuno hir oes iddo i fwynhau o ffrwyth gwaith caled y gorphenol.

Ar derfyniad ei yrfa yn y coleg yn haf 1864, cafodd alwad adref i fod yn weinidog yn Alltyplacca, ac o angenrheidrwydd gorfodwyd ef, fel pob gweinidog y pryd hwnw, i agor ysgol yn Cwrtnewydd, lle y cyfranodd addysg am flynyddau i ugeiniau yn rhad ac yn effeithiol. Pregethai yn achlysurol, mewn undeb ag ereill, yn Capel y Bryn hyd 1867, pryd y ffurfiwyd eglwys yno, ac y galwyd Mr. Davies i fod yn weinidog arni. Erys yn y ddau le uchod hyd heddyw. Trigianna yn ei hen gartref genedigol, ac mae iddo barch dwfn trwy yr holl wlad fel dyn ac fel gweinidog defnyddiol a llwyddiannus.

Gyda golwg ar Mr. Davies fel pregethwr, 'rwyf am gywiro rhai argraffiadau gau a fynwesir gan rai pobl. Mae wedi cael ei ddweyd ambell waith nad yw Mr. Davies ddim yn Undodwr o gwbl. 'Rwy'n estyn iddo fy nghydymdeimlad gyda llawer iawn o barodrwydd yn y mater hwn. Cofiaf yn dda, flynyddau yn ol, i mi draddodi pregeth, un Sul, ag oedd dipyn allan o'r cyffredin fel ymosodiad ar syniadau iawnffyddol. 'Roeddwn wedi bod ar y *war path* y diwrnod hwnw. Daeth dyn ataf ar ol y cwrdd, i ddiolch am y bregeth, a dywedodd, gyda llaw, mai dyna'r tro cyntaf erioed iddo ddeall fy mod I yn Undodwr. Beth oeddwn cyn hyny, ni chefais wybod. Yn enw hyd a lled, dyfnder ac uwchder Undodiaeth, 'rwy'n gwrthdystio yn erbyn culni o'r fath hyn. 'Roedd y dyn hwn wedi arfer clywed trwy ei oes ryw un wedd o Undodiaeth yn cael ei phregethu, a chredai mai hono oedd y cwbl. Yr un modd y mae hi wedi bod gyda Mr. Davies. 'Rwyf yn addef ei fod yn sefyll ar ei ben ei hun yn mhlith ei frodyr mewn llawer o bethau. 'Dyw e' ddim yn gopi o neb arall, ac 'rwy'n ei barchu am ei ddull gwreiddiol a naturiol ei hun o osod ei genadwri o flaen y byd. Ond mae'r Undodiaeth sydd yn cynnwys Channing a Parker, Martineau a Herford, Gordon ac Armstrong, Gwilym Marles ac Owen Evans, yn ddigon eang i'w gynnwys yntau hefyd, heb fod un cam yn cael ei wneyd â'i therfynau.

Meddai dosparth arall wed'yn—Os ydyw Mr. Davies yn Undodwr, Undodwr hen ffasiwn ydyw, yn perthyn i'r oes o'r blaen. Choelia I fawr o hyny chwaith. Credaf fi fod y sylw hwn i'w briodoli i'r ffaith fod Mr. Davies wedi arfer, i raddau pell, i osod pwys ar wedd gadarnhaol Undodiaeth—gwedd nad yw yn amrywio rhyw lawer o oes i oes. Cenadwri rhai yw dynoethi a dinystrio hen gyfeiliornadau, ac maent yn cael eu hanrhydeddu fel proffwydi gwell amser i ddyfod. Cenadwri ereill yw tynu i lawr er mwyn adeiladu, gyda phwyslais ar yr "adeiladu." Un o'r rhai diweddaf yw Mr. Davies. Mae fel y dywedai Dr. Holmes am Emerson, yn *iconoclast without a hammer*—"delw-ddrylliwr

heb forthwyl." Nid yw yn ergydio ac yn darnio ar bob llaw fel mae ambell un pan mae'n ymosod ar yr eilunod ag mae pobl yn addoli; ond mae'n myned oddiamgylch yn dawel, ac mae'r delwau, wedi'r cwbl, yn cael eu symmud a'u taflu i'r wadd a'r ystlumod. Pregethai Mr. Davies, er ys ychydig yn ol, mewn capel iawnffyddol, yr hwn oedd yn dygwydd bod heb weinidog. Ei bregeth oedd yr un adnabyddus hono o'r Philippiaid iii. 9, "Ac y'm ceir ynddo ef heb fy nghyfiawnder fy hun," &c.—pregeth Undodaidd o'r iawn ryw. Cafodd y gynnulleidfa ei boddloni yn annghyffredin gan y pregethwr dieithr, a thystiolaeth rhai oedd ei fod yn un o'r *supplies* goreu oeddent wedi sicrhau oddiar pan yr aeth y pwlpud yn wag. Dyna beth ydwyf fi yn feddwl wrth symmud yr eilun yn ddystaw a thawel heb yn wybod braidd i'r rhai oedd yn ei addoli. Yn y bregeth ddiweddaf a glywais I gan Mr. Davies yn nghyfarfod Pantydefaid, gosododd wedd mor resymol ar droedigaeth Paul pan yn myned o Jerusalem i Damascus, a hyny gyda chyffyrddiad mor ysgafn, medrus, a naturiol, fel 'rwy'n teimlo yn sicr nad oedd braidd ond ychydig wedi sylwi fod yr hanes yn yr Actau wedi ei daflu o'r neilldu, a Mr. Davies wedi cymmeryd y rhyddid i esponio'r cyfnewidiad yn ei ffordd ei hun. Un sylw craffus o'i eiddo, nas gallaf beidio ei grybwyll, yw hwn: "Ariaeth, mewn gwirionedd, ydyw athrawiaeth y rhan fwyaf o'r Testament Newydd; ond beth dâl son, 'does dim synwyr ynddi." Gwnaed y sylw hwn er ys blynyddau bellach, cyn fod beirniadaeth y Testament Newydd wedi cyrhaedd ei phwynt presenol. Cefais gipdrem pwy ddydd ar *Oes Apostolaidd* Weizsäcker, ac mae'r awdwr galluog hwnw, yn gystal a phob peth arall ydwyf fi wedi ddarllen oddiar hyny hyd yn awr, yn cadarnhau ei wirionedd. Ond ni fuasai un Undodwr o'r hen ffasiwn yn euog o ddweyd peth mor chwyldroadol a hyna.

Wel, mae y papyr hwn wedi rhedeg yn hir; ond 'rwyf am ychydig o ofod yn mhellach at rai "casgliadau oddiwrth yr hyn a ddywedwyd," yn neillduol er budd ein myfyrwyr ieuainc sydd yn parotoi ar gyfer y weinidogaeth yn Nghymru. Beth ydyw rhai o ddirgelion llwyddiant a phoblogrwydd Mr. Davies fel pregethwr ar wahan oddiwrth ei ddoniau naturiol, oblegyd cofiwch chwi, mae'r gwir bregethwr, fel y gwir fardd, bob amser yn cael ei eni, ac nid yn cael ei wneyd.

(1) Mae'n gwybod ei Feibl, a'r ffordd i gymhwyso trysorau cyfoethog yr Hen Gyfrol at angenion ei waith. 'Dyw y cyfnewidiad syniadau mewn perthynas i'r Beibl ddim yn golygu fod llai o sylw i gael ei dalu iddo, ond llawer mwy. Mae oes euraidd ei ddylanwad yn y dyfodol, ac nid yn y gorphenol. Astudiwch y Beibl ynte o flaen pob peth arall. Sobr o beth ydyw clywed pregethwr yn gwneyd camsyniadau gyda golwg ar ffeithiau cyffredinol ei hanes, ac athrawon yr Ysgol Sul yn llygadu ar eu gilydd dan y pwlpud, yn ngwyneb difrifwch yr olygfa. Gwell yw i chwi fod yn ddiffygiol mewn pob cangen, a bod yn ddynion un llyfr, nag esgeuluso'r wybodaeth hon sydd mor hanfodol i'ch llwyddiant.

(2) Mae'n feistr ar yr Iaith Gymraeg, ac yn un o'r rhai mwyaf medrus a deheuig yn y defnydd o honi ag ydwyf fi yn adnabod. Mae

pob gair yn dyfod fel mae ei eisieu, yn syrthio i'w le yn naturiol, ac mae e' bob amser yn air Cymraeg. Clywais Mr. Davies yn defnyddio gair Seisnig wedi ei Gymreigio un waith. 'Rwyf yn cofio'r gair; ond ddyweda I ddim o hono. Yr oedd yn fethiant perffaith, ac nid wyf yn meddwl ei fod wedi gwneyd ail ymgais byth oddiar hyny. Fel meistr o'r hen Gymraeg yn ei symledd ac yn ei haruchelledd, mae Mr. Davies yn esiampl i bob pregethwr ieuanc, a hen bregethwr hefyd, o ran hyny.

(3) Mae'n pregethu'r Efengyl, fel mae e' yn ei deall hi, yn syml heb ei chymmysgu â dim arall. Gallwch chwi benderfynu nad ydym ni fel gwrandawyr ddim yn dygymmod â Gwyddor, Beirniadaeth, Athroniaeth, &c., yn y pwlpud. 'Dyw Kant a Hegel, Darwin a Huxley, o fawr help i ni yn mrwydrau bywyd. 'Does dim ysprydoliaeth i achub dynion mewn rhyw dalpiau ammrwd o wybodaeth sych yr ysgolion. Mae'n iawn i chwi ddyfod yn gynnefin â'r pethau yma, ond cyn eu pregethu, gadewch iddynt ymdoddi yn ngwres eich natur ysprydol, ac yna gosodwch hwy yn *mould* yr Efengyl, a rho'wch y *benefit* i ni, wyr y seti, ac fe fyddwn yn ddiolchgar i chwi.

W. J.

Y PETHAU A GREDIR GENYM.

LUC I. 1—4.

(Traddodwyd y bregeth hon yn Nghyfarfod Blynyddol Undodiaid Deheudir Cymru, yr hwn a gynnaliwyd yn Mhantydefaid, Ceredigion, Mehefin 21, 1894*).*

GAN Y PARCH. W. GRIFFITHS, B.D., PH.D.

YN y testyn sylwa Luc fod ereill wedi cymmeryd mewn llaw i ysgrifenu hanes bywyd Iesu; ac fel rheswm paham yr ymgymmera yntau â'r gorchwyl, dywed ei fod wedi gwneyd ymchwiliad gofalus i'r ffeithiau, a'i fod am osod y cyfryw mewn trefn er budd Theophilus.

Mae llawer wedi ymgymmeryd, o dro i dro, â nodi y pethau a gredir yn mysg Undodiaid. Fel un sydd wedi cyfnewid yn ei farn ar wahanol bynciau crefyddol, hwyrach y goddefir i mi nodi rhai o'r pethau a gredir yn ddiamheuol genyf ar ol rhai blynyddau o ymchwiliad. Yr wyf yn gwneyd hyny mewn gobaith y bydd iddynt brofi yn fuddiol a chynnorthwyol i rywrai o'm cydgenedl allant fod yn amheu a dystaw annghredu amryw o'r pethau osodir allan fel athrawiaethau y grefydd Gristionogol. Nid wyf am ddweyd dim yn sarhaus am y cyfeillion wahaniaethant oddiwrthyf yn nglyn â'r pynciau hyn. Hyderaf, hefyd, y byddant hwythau mor Gristionogol a chaniatau i minau ryddid i draethu fy marn, gan gydnabod y gall y gwirionedd fod mor anwyl genyf fi ag ydyw ganddynt hwythau. Addefaf, gyda pharodrwydd, nad ydynt hwy yn atebol i mi am eu syniadau; ond daliaf, hefyd, nad wyf finau yn atebol iddynt hwythau. I'w Arglwydd a'i gydwybod ei

hun y mae pob un o honom yn atebol. Nis gellir dysgwyl i mi, mewn un bregeth, fynegu y cyfan ydwyf yn gredu; felly ymfoddlonaf, yn bresennol, ar y pwyntiau canlynol:—

URDDAS DYN.

Mae y credoau a'r catecismau wedi gwneyd llawer i ddiraddio dyn yn ei olwg ei hunan drwy eu desgrifiadau unochrog. Dywedir fod pechod Adda wedi llwyr andwyo ac anmharu y natur ddynol; fod pob dyn yn hollol lygredig wrth natur; fod pob un yn analluog i wneyd un da o hono ei hun; fod pob un yn gaeth i ddrygioni. Mae y fath ddysgeidiaeth yn gwneyd cam â'r natur ddynol, ac yn groes i ffeithiau. Credwn fod gallu yn mhob un i wneyd da. Os nad oes, a yw yn iawn a theg iddo gael ei gondemnio? Meddyliwch, er enghraifft, fod rhyw dad yn gorchymyn i'w blentyn gyflawnu rhywbeth sydd uwchlaw ei allu. A fyddai yn *ddynol* ynddo i ddwrdio neu gospi y plentyn am fethu cyflawnu y peth hwnw? Faint bynag fyddo gallu rhywun, bydded fawr neu fach, nis gellir yn rhesymol ei gondemnio, os gesyd y gallu hwnw mewn cyflawn ymarferiad. Yr hyn sydd yn gosod dyn dan farn condemniad yn y llywodraeth foesol yw ei gyflawniad o ddrwg, er fod ganddo allu i ymddwyn yn wahanol—gallu i wneyd da. Er ein bod wedi dyoddef o herwydd pechod Adda, nid ydym yn gyfrifol am y pechod hwnw. Cyfyd y pechod, o'r hwn yr ydym ni yn gyfrifol, o'n hewyllys. Mae yr hyn a elwir yn bechod etifeddol yn drueni, ond nid yw yn euogrwydd. Tra yr addefwn fod tueddiadau ynom at ddrwg, daliwn hefyd fod ynom dueddiadau at dda. Yr ydym yn derbyn tueddiadau da, yn gystal a thueddiadau drwg, drwy etifeddoliaeth.

Mae llawer o annidwylledd yn y cyfaddefiadau wneir gan ddynion yn aml mewn perthynas i'w cyflwr mewn ystyr ysprydol. Defnyddiant dermau am danynt eu hunain na charent glywed neb arall yn gymhwyso atynt. Ai tybed fod crefydd yn gofyn i ddyn ddweyd pethau nad yw yn feddwl am dano ei hun? Synied dyn yn weddus am dano ei hun. Gwnaed ei oreu i adnabod ei hun yn ei wendid a'i gryfder; yn ei derfynolrwydd a'i bossiblrwydd. Bydd, wrth hyny, yn fwy tebyg o wneyd chwareu teg â'i alluoedd nag wrth eu dibrisio.

Nid yw dyn, yn bresennol, fel y mae Duw wedi bwriadu iddo fod. Mae yn mhell etto o gyrhaedd y ddelfryd Ddwyfol. Gwella, ac nid dirywio, y mae. Yn mlaen, ac nid yn ol, mae ei gyfnod euraidd. Wrth adolygu ei ymddyrchafiad a'i ymddadblygiad yn y gorphenol, nis gallwn lai na chasglu y bydd iddo barhau i ymgodi ac ymddyrchafu yn y dyfodol.

YMDDIRIEDUSRWYDD RHESWM.

Credwn y dylem arfer rheswm mewn pethau crefyddol, fel mewn pethau ereill. Nid oes neb yn petruso rhesymu ar faterion bydol, fel y gelwir hwy. Mae y materion hyny, ebai rhywun, o fewn tiriogaeth rheswm, tra y mae materion crefydd yn meddu ar gyssegredigrwydd

arbenig ac uwchlaw rheswm. Os dylyna dyn arweiniad rheswm, meddai, mae perygl iddo droi ymaith oddiar y llwybrau cyffredin—i symmud ymaith y terfynau a osododd y tadau, ac i ymwrthod â'r hen athrawiaethau. Nid yw hyny yn profi fod yr hwn sydd yn defnyddio ei reswm, o angenrheidrwydd, yn myned ar gyfeiliorn. Gall fod yn dylyn llwybr gwirionedd yn fwy cywir wrth wneyd hyny nag wrth gymmeryd y cwrs cyferbyniol. Dybiwch chwi fod y Duw sydd wedi ein cynnysgaethu â rheswm yn gomedd i ni ei arfer? Dybiwch chwi fod yr hwn sydd yn gwrthod mewn ffurf o grefydd yr hyn sydd yn brin o bwysau yn nghlorian ei reswm yn pechu yn erbyn ei Wneuthurwr? Na, nid oes achos i ni ofni tynu anfoddlonrwydd Duw wrth ddefnyddio ein rheswm. Mae mwy o debygolrwydd y bydd i ni ei anfoddloni wrth beidio ei ddefnyddio. Drwy osod ein rheswm ar waith, y mae yn bossibl i ni fedru gwahaniaethu y gwir oddiwrth y gau. Mae i reswm ei le mewn crefydd yn gystal a'r teimlad, ac y mae arwyddion yr amserau, os ydynt yn dangos rhywbeth, yn dangos y dydd i reswm gael ei lafar mewn perthynas â chrefydd y dyfodol.

RHYDDID BARN.

Er y credwn y dylai y cyfryw hawlfraint gael ei chydnabod yn mhob cylch, fy amcan yn awr yw gosod pwyslais arni yn ei pherthynas â materion crefyddol. Hawl dyn i farnu drosto ei hun mewn pethau crefyddol oedd un o'r arwyddeiriau egluraf ar faner y Diwygiad Protestanaidd. Gweithiodd Luther a'i gyd-ddiwygwyr yn egniol i geisio argyhoeddi'r byd nad oedd angen i neb gylymu ei ffydd wrth eiriau y Pab nag offeiriad. A gariwyd egwyddorion sylfaenol y Diwygiad yn ddigon pell—a gariwyd hwy i'w canlyniadau rhesymol, ydynt gwestiynau teilwng o ystyriaeth. Creda llawer na wnaethpwyd; ac yn y "deffroad" presennol, gwel y cyfryw barhad o waith, ac adnewyddiad o yspryd, y Diwygwyr Protestanaidd. Dywedir fod perygl wrth bwysleisio rhyddid i redeg i benrhyddid,—i fyned yn ddireol, ac i dori dros ben pob terfynau. A chaniatau fod rhai yn camddefnyddio rhyddid, a yw hyny yn rheswm digonol dros nacau rhyddid i ereill? Beth fyddai y canlyniad pe cerid y fath ymresymiad allan yn ein holl gyssylltiadau?

Ni ddylai fod ofn rhyddid meddyliol arnom. Dylem, nid yn unig oddef neu ganiatau ereill i farnu drostynt eu hunain, ond dylem hefyd daer gymhell pawb i wneyd hyny. Lle y byddo amryw feddyliau bydd amryw olygiadau. Ellir dim dysgwyl unffurfiaeth barn yn mysg y rhai ydynt yn *meddwl* drostynt eu hunain. Ni ddylai yr hwn sydd yn hawlio rhyddid personol geisio cyfyngu ar ryddid ereill. Nid yw yn iawn i'r un dyn drawslywodraethu ar ffydd ei gyd-ddyn. Nid yw Protestaniaid, meddai rhywun, yn gwneyd felly. Tybed? Sut yr ymddygir at yr hwn sydd yn gwrthod yr athrawiaethau uniongred am y Drindod, yr Iawn, Ysprydoliaeth y Beibl, neu Gospedigaeth Dragwyddol? Gwir fod Protestaniaeth, mewn egwyddor, yn caniatau rhyddid; ond, fel y mae gwaethaf y modd, nid yw pob Protestant yn ei gosod mewn ymarferiad.

IACHAWDWRIAEH DRWY GYMMERIAD.

Ceisia gwahanol ddynion sicrhau iachawdwriaeth mewn gwahanol ffyrdd. Tybia un dosparth mai yr unig ffordd i gyrhaedd yr amcan yw drwy dalu sylw manwl i seremoniau a defodau. Tybia dosparth arall mai derbyniad o athrawiaethau neillduol yw ammod iachawdwriaeth. Faint bynag o werth all fod mewn cydymffurfiad â defodau gosodedig, ac mewn derbyniad o athrawiaethau neillduol, nid ydynt yn hollol anhebgorol er sicrhau iachawdwriaeth. Mae iachawdwriaeth yn rhywbeth pwysicach, yn rhywbeth dyfnach, yn rhywbeth mwy tufewnol nag y tybir yn gyffredin. Nid cyfnewidiad gymmer le ar unwaith yw, ond cyfnewidiad graddol, dadblygiad y natur foesol, tyfiant cymmeriad mewn rhinwedd a daioni, dadblygiad pob cynneddf i'w pherffeithrwydd. Os yw'r llanc am gyrhaedd gwybodaeth, rhaid iddo fod yn rhywbeth heblaw gwrthddrych goddefol yn nwylaw ei athraw. Fedr ei athraw ddim gwneyd ysgolor o hono yn annybynol ar ei ymdrechion ei hun. Fedr Duw, chwaith—gyda gwyleidd-dra y dymunwn ei ddweyd—ddim achub y dyn hwnw nad yw ei fryd ar fywyd uwch, a'i amcan ar arwain bywyd gwell. Nid oes un wisg o gyfiawnder i'w chael, yr hon, wrth ei gosod am ddyn annghyfiawn yn ei drafodaeth, wna i'r dyn hwnw ymddangos yn gyfiawn o flaen Barnydd yr holl ddaear, yr hon, wrth ei gosod am ddyn anmhur yn ei feddyliau, a llygredig yn ei fuchedd, a sicrha iddo gymmeradwyaeth Chwiliwr y calonau a Phrofwr yr arenau. Yr iachawdwriaeth uchaf y gwn I am dani yw iachawdwriaeth bersonol. Nid iachawdwriaeth wedi cael ei gweithio allan gan rywun yn fy lle, ond iachawdwriaeth yn cael ei gweithio allan genyf fi fy hunan dan gyfarwyddyd a dylanwad Ysbryd y Duw tragwyddol, iachawdwriaeth cymmeriad, dadblygiad cymmesurol y rhan anfarwol o honof, tyfiant graddol fy enaid ar ddelw Duw.

(I'w orphen yn y nesaf.)

HEN LYTHYRAU Y PARCH. TIMOTHY DAVIS, EVESHAM.

I.

Yn Yr Ymofynydd am Ionawr a Chwefror, 1864, y mae bywgraffiad dyddorol iawn o'r boneddwr uchod, wedi ei ysgrifenu gan y Parch. John Davies, gweinidog presennol Alltyplaca a Chapel-y-Bryn. Wrth ei ddarllen a sylwi ar ei ragoriaeth fel cyfansoddiad, nis gallaf lai nâ theimlo'n flin na fuasai ein hanwyl frawd wedi gwneuthur defnydd mwy o'i ysgrifell. Buasai hyny yn lles iddo ef ei hun ac yn fendith i'r achos y mae wedi cyflwyno ei fywyd iddo.

Oddiwrth y bywgraffiad hwn yr wyf yn cael fod Timothy Davis, ail fab y bardd o Gastell Hywel, wedi ei eni yn y Plas Bach, Ciliau Aeron, Tachwedd 20, 1779, ac iddo farw Tachwedd 28, 1860, yn Evesham, lle yr oedd wedi bod yn weinidog 40 mlynedd.

Ryw flwyddyn neu ddwy cyn ei farw, gyrodd y Parch. J. R. Kilsby

Jones sypyn o lythyron ataf, gan feddwl y byddent o ddyddordeb i mi, am eu bod wedi eu hysgrifenu gan y Parch. T.D. Gwnes ychydig nodiadau o'r llythyron ar y pryd, ac yna dychwelais hwy. Erbyn heddyw mae yn ddrwg genyf na fuaswn wedi eu copïo yn gyflawn, am y credaf y byddent yn ddyddorol i lawer o'ch darllenwyr. Dygwydd y gwelir y llythyron gwreiddiol byth mwy. Y mae yma gyfeiriadau pwysig a rhai awgrymiadau ar bwnc sydd erbyn heddyw yn hanesyddol.

Yn y llythyr cyntaf, dyddiedig

Mehefin 2, 1851,

y mae cyfeiriad at erthygl yn y *Traethodydd* ar D. Davis, Castell Hywel. Sonia am orwyr i'w chwaer, Joshua Evans, Drefach, ar y pryd yn gydfyfyriwr yn Ngholeg Trefecca. Yr oedd Mr. D. wedi clywed mai Kilsby oedd awdwr yr erthygl yn y *Traethodydd*, ond wedi cael rheswm i gredu mai'r awdwr oedd Pryse Pryse, diweddar fyfyriwr o Goleg Trefecca. Mae yma gyfeiriad at Mr. Thomas, *exciseman* o Narberth. Yr oedd Pryse wedi priodi boneddiges o Pembroke neu Tenby, ac ar fedr myned allan yn genadwr i'r India.

Dywed, "Y mae Mr. Rhys Stephens yn siarad yn barchus am fy nhad yn ei 'Hanes Bywyd Christmas Evans.' Yr oedd Evans yn was yn nhy fy nhad pan gollodd ei lygad. Holais y gwas arall, a'i tarawodd, mor ddiweddar â'r Haf cyn y diweddaf, a cheisiais ganddo roddi hanes mor gywir ag y medrai—ac yr wyf yn credu iddo wneyd hyny. Sut y darfu i Christmas ddywedyd fod chwech person wedi ymosod arno, gyda'r bwriad i gymmeryd ei fywyd, sydd i mi yn ddirgelwch. Gwnaed y cwmni i fyny o ddau foneddwr ieuainc oeddynt yn yr ysgol gyda fy nhad—sef dau Brytherch o Frechfa, yn dychwelyd adref o ffair Llandyssul, a David Evans, y gwas arall, yr hwn yn anffodus a'i tarawodd â thamaid o bren bychan oedd yn ei law, gan amddifadu Christmas Evans o'i lygad. Ni fu dim ymladd, dim ond yr un ergyd hwnw, wedi ei achlysuro gan eiriau sarhaus o eiddo Christmas Evans. Yn Mywyd Christmas Evans fe ddywedir ei fod, pan yn ieuanc, yn ymladdwr, &c., &c., fel pe byddai i fawrygu dwyfol ras yn ei ddychweliad. Ni allai fod camsyniad mwy. Yr oedd yn ddyn sobr a gofalus o'i ieuenctid, yn wastad yn uno â ni yn ein cyfarfodydd gweddi er pan oedd braidd yn blentyn. Yr wyf yn cofio am dano yn fy nghario yn ei freichiau i'r capel i Lwynrhydowen."

II.

DYFYNIADAU O'I LYTHYR DYDDIEDIG

Gorphenaf 28, 1851.

"Joshua Evans sydd orwyr i fy chwaer Anne, a mab i Thomas Evans, Drefach, Llanwenog.

"Fe ddywed Mr. Thomas, Narberth, pregethwr achlysurol gyda'r Methodistiaid, mai Pryse Pryse oedd awdwr yr erthygl ar D.D.

"Yr oeddwn yn adwaen Dr. Phillips, Neuaddlwyd, a'i wraig yn dda. Yr oeddym yn gydysgolheigion yn Nghastell Hywel. . . . . .
Ciniawais gydag ef yn ei dy ei hun ychydig flynyddau cyn iddo farw.

O'r flwyddyn 1802 hyd 1810, yr oeddwn yn gydweinidog â fy nhad yn Nghiliau, &c., yn y gymmydogaeth hono, ac arferwn weled Mr. Phillips yn achlysurol.

"Rhaid fod cyfnewidiad mawr yn y Methodistiaid yn ystod y 40 mlynedd diweddaf. Tua dechreu'r adeg hono yr wyf yn cofio Ebenezer Morris yn dadgan wrthyf ei annghymmeradwyaeth mawr o'r neidio. Tuag 28n mlynedd yn ol treuliodd fy nheulu a minau ychydig ddyddiau yn y Cei Newydd. Yr oedd capel y Methodistiaid yn nghymmydogaeth y ty yr oeddym yn llettya ynddo, a gwasanaeth ynddo bron bob nos. Aethum yno yn fynych, ac yr oedd y swn yn enfawr—y llefain Gogoniant, Diolch Iddo, &c., &c., a chyn ymwahanu, ar ol canu yr un emyn ddeg neu ddwsin o weithiau, terfynent gyda neidio mewn rhyw orphwylledd crefyddol. Ychydig flynyddau yn ol bum ar ymweliad â'r un lle a'r un capel, ac yr oedd yn syndod genyf weled y gwahaniaeth mawr yn y dull o gario'r gwasanaeth yn y blaen—dim gwaeddi, dim llefain, dim 'Gogoniant" gan neb. Yr oedd yr oll yn weddaidd ac yn ddifrifol, dim ail-adrodd yr emyn wrth ganu—pregeth dda oddiar Rhuf. xii. 1, gan un Mr. Thomas o Aberteifi, a allai fod er adeiladaeth i bawb, yn llawn gwersi ymarferol. Y mae'r Methodistiaid yn dyfod yn Annghydffurfwyr selog iawn, ond y mae offeiriaid yr Eglwys Sefydledig yn achwyn ar eu trahausder.

"Yr wyf yn cofio ciniawa 43n mlynedd yn ol yn y Red Lion yn Rhaiadr ar Gwy, ar fy ffordd i Aberystwyth, ac yn yr ystafell, gwelais lyfr mewn ysgrifen, gydag anerchiad gan Rydycheinwr ar ei ddechreu, yn gwahodd ymwelwyr i ysgrifenu unrhyw sylwadau yn nghylch yr hyn a ddygwyddai iddynt ar eu taith trwy y wlad, &c. Gorfodwyd ef i aros yno un diwrnod gan y tywydd garw, a gadawodd y llyfr ar ei ol i'r pwrpas. Ysgrifenais ynddo yr ysgrifen fedd ganlynol, yr hwn, meddai Edward Williams, Iolo Morganwg, oedd yn cael ei edmygu yn fawr. Y mae i'w weled yn y fynwent, yn Ewenni, ger Penbont-ar-Ogwr, ar garreg bedd dyn ieuanc, cynnrychiolydd diweddaf teulu hynafol a pharchus yn y plwyf, yr hwn a fu farw o'r ddarfodedigaeth:

> "Here lies Ewenny's hope, Ewenny's pride,
> In him both perished, and in him both died;
> Death having seized him, lingering, loath to be
> The ruin of that ancient family."

''Ydych chwi wedi gweled hanes bywyd Christmas Evans gan Rhys Stephens? Ysgrifenais ato i ddiolch iddo am y modd parchus, a'r ysprydcanmoladwy, gyda'r hwn yr oedd wedi ysgrifenu am fy nhad. Cefais lythyr yn ateb. Ac och! y mae yntau, erbyn hyn, wedi syrthio! wedi syrthio!! Yr wyf yn cofio'r adeg y collodd Christmas Evans ei lygad, pan yn ngwasanaeth fy nhad driugain mlynedd yn ol. Nodais allan wallau yn yr hanes. Y flwyddyn ddiweddaf, gwelais y dyn a'i tarawodd yn ei lygad, a chymmerais yr hanes yn gywir o'i enau ef. Yr oedd Christmas Evans yn fy nghario I yn fynych yn ei freichiau i gapel Llwynrhydowen. Mae yr hanes, fel y ceir ef yn llyfr Rhys Stephens, yn hollol gamarweiniol, ac yr wyf yn methu deall sut yn bossibl y

gallodd Christmas Evans ddywedyd yn ei ddyddlyfr, fod pump o ddynion wedi ymosod arno, gyda'r bwriad i gymmeryd ei fywyd. Nid oedd ond tri yn bresennol, dau Brytherch o Frechfa, yn yr ysgol gyda fy nhad, a David Evans, y gwas.

"Y mae fy hen gydfyfyrwyr oll wedi marw, oddigerth Thomas Evans o Sir Henffordd, a Dr. Thomas Rees o Lundain. Pan yn Nghymru mis Hydref diweddaf, cefais fod fy nghydfyfyriwr, John Lloyd o Henllan, wedi marw ychydig wythnosau yn flaenorol. Er ei fod ef a'i ragflaenydd yn Galfiniaid cryfion, etto, yr oeddym yn gyfeillion calonog."

(I'w barhau.)

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUBARTH CYMRU.

Parotowyd y rheolau a ganlyn ar gyfer Pwyllgor oedd i gyfarfod yn Mhantydefaid ar achlysur y Cyfarfod Blynyddol yn mis Mehefin diweddaf, a cheisiwyd genyf, fel Ysgrifenydd presennol y Gymdeithas, i'w trosglwyddo trwy gyfrwng Yr Ymofynydd i ystyriaeth yr eglwysi. Ag eithrio pennodiad y Parch. Thomas Thomas yn Llywydd, ni phenderfynwyd dim yn y pwyllgor hwn. Nid ei le oedd penderfynu dim ar y Rheolau, er mai y teimlad unfrydol oedd na ddylid esgeuluso'r adeg bresennol i helaethu maes y Gymdeithas, i ffurfio trysorfa ar gyfer amcanion cenadol, a gwneyd pob ymdrech i gynnorthwyo y mudiad rhagblaen sydd yn barod wedi ei gychwyn gan y Parch. Ddr. Griffiths yn Nghwm Rhondda a manau ereill. Ar ol darllen y Rheolau, gwel y darllenydd fod ymgais i gael ei gwneyd, os yn bossibl, gan y Gymdeithas i helaethu terfynau Undodiaeth, trwy sefydlu achosion newydd mewn lleoedd poblog. Er mwyn hyny, amcenir at ffurfio trysorfa, trwy sicrhau casgliadau rheolaidd yn ein heglwysi, a thanysgrifiadau blynyddol oddiwrth Undodiaid mewn gwahanol fanau. Os nad ydym ni etto wedi dysgu oddiwrth enwadau ereill sut i gyfranu yn deilwng at achosion teilwng, mae eglwysi Undodaidd Ceredigion wedi gosod esiampl o'n blaen yn ystod y Gwanwyn diweddaf, trwy y dull gwresog a brwdfrydig y darfu iddynt ateb appel Dr. Griffiths am eu cynnorthwy i gario'r achos cenadol yn mlaen yn Nghwm Rhondda. Ar bwys y cyfraniadau a dderbyniodd y Dr. y pryd hwnw, mae cenadwr wedi ei sefydlu yno yn mherson y Parch. D. Ifor Davies, diweddar o Ddowlais. Cynnelir gwasanaeth rheolaidd yn awr bob Sul, nid yn unig yn Mhontypridd, ond hefyd yn Nhreorci, Blaenllechau, a Chwm Clydach; ac yn ol pob argoel presennol, gydag amynedd a dyfalbarhad, daw y rhai hyn yn achosion cryfion yn mhen ychydig iawn o amser. Mae pob peth yn dweyd fod y cyfnod hwn yn ffafriol dros ben o olygiadau rhyddfrydig ar grefydd. Y cynhauaf, yn ddiau, sydd fawr. A ydyw ein ffydd yn ddigon byw, a'n hargyhoeddiadau yn ddigon neithol, i'n galluogi i gymmeryd mantais o'r llanw pan mae'n

llifo i fyny atom, ac yn cynnyg i gario'n hachos yn mlaen i lwyddiant a buddugoliaeth? Os ydynt, mae'r llwybr yn glir i ni gymmeryd cyfrifoldeb y mudiad hwn ar ein hysgwyddau ein hunain, a pheru i'r Gymdeithas fod yn gyfrwng defnyddiol a gwasanaethgar i wneyd Undodiaeth yn fwy o allu yn Nghymru nag y mae hi wedi bod. Gydag ychydig ffyddlondeb mewn casglu a thanysgrifio, gyda chymhorth *grant* oddiwrth y Gymdeithas Undodaidd yn Llundain, yn ychwanegol at gyfraniadau y lleoedd a gynnorthwyir, nid wyf yn amheu nad peth hawdd fydd i'r Gymdeithas gynnal, nid un cenadwr yn unig, ond dau a rhagor hefyd, fel y byddo meusydd a chyfleusderau newyddion yn dangos eu hunain. Mae y Rheolau canlynol wedi eu sylfaenu ar eiddo y Gymdeithas Undodaidd Seisnig yn Sir Forganwg. Ffurfiwyd y rhai hyn, mae'n debyg, gan yr Undodwr galluog a dylanwadol hwnw, Dr. Blake Odgers, Q.C. Gwnaed pob eglwys alw cyfarfod neillduol i'w hystyried, ac hefyd, i ethol un o'i haelodau i'w chynnrychioli, yn ychwanegol at ei gweinidog, yn y Cyfarfod Chwarterol nesaf yn Gellionen.

Bydd yn dda genyf glywed a derbyn unrhyw welliant neu awgrymiad oddiwrthynt i gyd erbyn yr 20fed o fis Medi.

Brynhyvryd, Llandyssul,
Gorphenaf 16*eg*, 1894.

W. James,
Ysgrifenydd.

RHEOLAU.

1.—Gelwir y Gymdeithas wrth yr enw uchod, a chynnwysa holl eglwysi Undodaidd Cymreig Deheubarth Cymru.

2.—Gall y Pwyllgor a grybwyllir etto ychwanegu at yr uchod enw unrhyw eglwys arall a ddichon wneyd cais am uno â'r Gymdeithas.

3.—Amcan y Gymdeithas yw hyrwyddo lledaeniad Undodiaeth yn Neheubarth Cymru, estyn cynnorthwy i'r eglwysi sydd yn y cylch yn barod, sefydlu cynnulleidfaoedd newydd, gosod ar droed genadaeth gartrefol, a cheisio trwy bregethu, darlithio, ac argraffu llenyddiaeth Undodaidd, i wasgar yr egwyddorion ar hyd a lled y wlad.

4.—Gwneir y drysorfa i fyny o danysgrifiadau a chasgliadau blynyddol yn yr holl eglwysi.

5.—Gwna pob eglwys ethol trysorydd lleol i ofalu am y casgliad, ac i geisio am danysgrifiadau at y Drysorfa.

6.—Swyddogion y Gymdeithas fyddant y Llywydd, yr Ysgrifenydd, a'r Trysorydd, y rhai a etholir bob blwyddyn yn Nghyfarfod Blynyddol y Gymdeithas.

7.—Bydd gwaith y Gymdeithas yn cael ei ddwyn yn mlaen gan Bwyllgor, yn cynnwys swyddogion y Gymdeithas, gweinidog, ac un cynnrychiolydd lleygol (gwryw neu fenyw) o bob eglwys.

8.—Bydd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas y Iau cyntaf ar ol yr 21ain o Fehefin.

9.—Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn chwarterol ar adegau y cyfarfodydd chwarterol.

10.—Bydd gan y Pwyllgor allu i alw cyfarfod neillduol ar gais wyth o bersonau sydd â hawl ganddynt i bleidleisio yn y cyfarfod. Dylai y rhai sydd am alw cyfarfod grybwyll y pwnc neu y pynciau sydd i gael eu trafod.

11.—Bydd gan bob tanysgrifiwr a phob aelod o'r Pwyllgor hawl i bleidleisio yn y Cyfarfod Blynyddol neu unrhyw gyfarfod neillduol.

12.—Bydd pob aelod a roddo y swm o ddeg gini at Drysorfa y Gymdeithas i gael ei ethol yn aelod am ei fywyd.

13.—Ni wneir cyfnewidiadau yn y Rheolau ond yn y Cyfarfod Blynyddol, a rhaid rhoddi rhybudd o unrhyw gynnygiad a fwriedir wneyd i'r Ysgrifenydd bythefnos yn glir o flaen y cyfarfod.

CENFIGEN.

Un o destynau Cymreigyddion, 26 *Tachwedd*, 1834.

Cenfigen laswen aflesiol,—gwaneg,
Ei gwenwyn sydd farwol;
Gwiberaidd, ffiaidd, a ffol,
Ellyllaidd deryll hollol.

Anserchog, lefog, aflawen,—ei gwedd
A gwae yw ei habsen*
Cur yw i'r ieuanc a'r hen,
A fago'r flin Genfigen.

Gwae gwelw yw i ddelw ddiles,—gwae gerwin,
Gwae garo'r ellylles;
Gwae a llid, heb wrid, heb wres,
Gwar rhinwedd, gwae o'r hanes.

Gwae i neb weled ei gwen,—gwae olwg
Gwae eilwaith i'w pherchen;
Gwae lle trig y Genfigen
Gwae o'i rhwyg yn nhy gwr hen.

Merch mwyth yr adwyth ydyw,—merch y gwae,
Merch a gwen y cyfryw;
Estron a merch yr ystryw,
Merch y sarff anmharchus yw.

I weinion, Duw'r Ion, dyro ras,—war hawl
Er hedd pob cymdeithas;
A nodded rhag anaddas
Genfigen, neu gynnen gas.—*Gwilym Morganwg.*

---

* Slander.

ADGOFION BOREU OES.—IV.

Dywedais fod rhai gweddnodau digrif, eithr perffaith anymwybyddol, yn perthyn i gymmeriad duwiol Jaci o'r Llidiart. Yr oedd rhyw awdwr o'r enwad y perthynai ef iddo newydd gyhoeddi esponiad ar *Yr Hebreaid*, a bu siarad ar ddiwedd un o'r cyfarfodydd gweddi yn y capel yn nghylch y priodoldeb o'i ddefnyddio yn nosparth y "dynion mawr" yn yr Ysgol Sul. "Beth yw i brish e?" gofynodd Dafydd William, gan godi ar ei draed yn y cornel draw. "Swllt a naw," ydoedd ateb Shon o'r Beili Glas o'r set fawr. "Sgyswch fi, Shon, am ych corecto chi," meddai Jaci, "doi ond tair yw prish y llyfyr, mi prynes e ddo ag arian yn hunan yn shop Lockyer, Llandilo;" a phan fethasom ni blant a pheidio tori allan i bwffiadau o chwerthin am ben digrifwch y dywediad, yr oedd gwyneb Jaci mor ddifrifol a phe buasai yn cyhoeddi dedfryd marwolaeth, a throdd atom, yn nghyd â phesychiad, a gofynodd, "Be sy arnoch chi, blant? Odich chi ddim yn gwbod ych bod chi yn nhŷ Dduw?"

Dro arall, yn absenoldeb Shon, syrthiodd i ran Jaci i gyhoeddi'r pregethwr am y Sul canlynol, ac ni fuasai yn gywir iddo ei hun pe gwyrasai oddiwrth ddigrifwch ei arferiad cyffredin. Yr oedd rhyw Ddafydd Griffiths, o'r Fronfelen, wedi anfon ei gyhoeddiad i bregethu yn y capel am 11 o'r gloch y boreu, ac am 2 y prydnawn, ac yr oedd Shon wedi gofalu ysgrifenu yr hyspysiad yn blaen ac eglur, ac wedi gosod "2 o'r gloch" mewn llythyrenau breision rhag ofn y buasai Jaci yn gwneyd camsyniad, ac yn ei gyhoeddi am 6 yr hwyr yn lle am 2 y prydnawn; ond ni fuasai unrhyw rag ocheliad yn foddion i gadw Jaci rhag gwneuthur *blunder*. Ar ddiwedd y cwrdd, cododd yn araf ar ei draed, ac wedi rhoddi dau neu dri o besychiadau, darllenodd yr hyspysiad, debygasai, i'r llythyren, megys ag yr oedd ar y papyr. "Bydd y Parch. Dafydd Griffiths yn pregethu yn y capel hwn bore dydd Sul nesaf am 11 o'r gloch y bore, ac fe fydd e a rhyw Ddafydd Griffiths arall—dau Ddafydd Griffiths, diallwch chi—yn pregethu yn y prydnawn. Dewch yma yn gryno ac yn deidi i ryndo arnyn nw yn traddodi y genadwri yn eu hwylie gore. Tomos o'r Spien, y ti sy'n cadw'r mis, ond taw e? Wyt ti'n gwbod pwy yw y Dafydd Griffiths arall yna sy gyda Dafydd Griffiths? Odi e'n frawd ne gender iddo gwêd?" "Weles i ddim doi frawd byw a'r un enw arnyn nhw erioed, Jaci," oedd atebiad Tomos; "un Dafydd Griffiths fydd yma prydnawn dydd Sul nesa, ond taw am 2 y bydd e'n pregethu. 'Rwy'n ofni'ch bod chi'n i chymmysgu hi, Jaci."

Nid oedd Jaci yn gwybod fawr Saesneg, llawer llai ydoedd ei wybodaeth o'r Lladin, fel ag y gwelir oddiwrth yr amgylchiad a ganlyn. Cafwyd corff dyn wedi boddi yn yr afon Marles, tua hanner milldir o'r pentref lle'r oedd Jaci yn byw, ac yr oedd ef, yn nghyd â lluaws o'r

cymmydogion, yn gadarn argyhoeddedig yn eu barn taw boddi yn fwriadol oedd y dyn wedi wneyd, ac yr oedd Jaci yn dygwydd bod yn un o'r deuddeg ag oedd yn eistedd ar y trengholiad. "Beth ydoedd achos marwolaeth y trancedig?" gofynai y crwner iddynt yn swyddogol yn yr iaith Seisnig. "Wilful murder, sir," meddai Jaci, gan olygu, debygasai, fod y dyn wedi lladd ei hun yn wirfoddol. "Nonsense!" meddai'r crwner, "you mean *felo-de-se*," yr hyn o'i gyfieithu, yw, "hunanladdiad," neu yn Saesneg, *suicide*. "Fell in the sea!" meddai Jaci, gan syllu mewn syndod ar y crwner a'i anwybodaeth o'r dygwyddiad. "No, fell in the rivar, sir! Hiar no sea. Swanse tha sea!"

Byddai gwneyd cyfiawnder â hanes bywyd Jaci o'r Llidiart. cofnodi ei holl ddigrifwch anymwybyddol, manylu ar ei dduwioldeb, yn gofyn mwy o ofod nas gallai Yr Ymofynydd ganiatau; o ganlyniad, terfynaf fy ysgrif bresenol gydag hanes ei farwolaeth.

Un prydnawn tawel a hyfryd ar ddiwedd Mehefin, tra'r adar mân yn pyncio eu hemyn hwyrol cyn ymneillduo o honynt i gysgu dros y nos, a'r "droppers" *(fuchias)*—y blodau a garai oreu, a'r rhai ag oedd ei law gariadus wedi gofalu am danynt, a'u dyfrhau trwy lawer Haf —yn gogwyddo eu penau ar silff ffenestr y bwthyn, a'r *musk* a'r *mignonettes* yn llanw yr ystafell o berarogl, gelwais megys arfer i dalu ymweliad â Jaci, yr hwn oedd yn graddol a thawel ddiflanu ymaith mor brydferth a baban yn ymollwng i gysgu ar derfyn dydd, ac mor ansylwadwy a lleni yr hwyr oeddent yn araf daflu eu cysgod dros wyneb y ddaear. Yr oedd yn nghwsg pan aethum i fewn i'w ystafell, ac yr oeddwn ar fin dychwelyd allan o honi, i'r dyben iddo gael cysgu yn mlaen, pan y deffrodd yn sydyn, yn nghyd â dwfn ruddfaniad o lawenydd ac ymryddhad, a gwên dangnefeddus ar ei wyneb parchedig. Yr oedd rhychiau dyfnion ei aeliau llydain wedi eu llyfnhau ymaith; ei lygaid, O! mor fawrion a dysglaer, yn syllu i'r pell i ffwrdd, ei wefusau teneuon yn ymwahanedig oddiwrth eu gilydd, a gwên o heddychrwydd yn chwareu o'u deutu. Yr oedd ei wallt, yr hwn oedd can wyned a'r eira glân, wedi ei wthio'n ol oddiwrth ei dalcen; ei drwyn, yr hwn oedd yn tueddu i fod yn Rhufeinig, megys wedi ei gerfio allan o ddysglaer fynor; ei wyneb, yr hwn a fu unwaith yn grwn, a orweddai yn awr yn grebachlyd a theneu ar y gobenydd. Ymddangosai megys mewn breuddwyd neu fyfyrfod ag oedd yn rhy gyssegredig i'w ddihuno allan o hono. Eithr yn y diwedd, dyma ef yn tynu ei law egwan a chrynedig dros ei lygaid, ac wedi eu hagor a sylwi fy mod yn sefyll wrth erchwyn ei wely, anerchodd fi yn y modd a ganlyn: "Ti ddest, y machgen I, ac y mae'n dda genyf dy fod wedi dwad; pe byset ti wedi oedi ychydig yn hwy, fe fyse'r hen Jaci wedi mynd miwn i hafan gorphwysder." Dywedais inau wrtho mor dirion ag y medrai fy nghydymdeimlad pur lefaru, fod yn wir flin genyf fy mod wedi ei ddeffroi; ond nid ymddangosai ef fel pe yn fy nghlywed o gwbl, ac aeth yn mlaen gyda'r geiriau canlynol: "Yr wyf wedi bod yn bryddwydo, Ifor, a mi wedaf wrthyt y freuddwd yn awr, oblegyd 'rwy'n i gweld hi'n fyw o flan fy llyged. Rown yn meddwl mod i'n

cerdded ar lan y môr, ac yr odd y trath wed'i guddio â cherryg llym a brathus, Dos gyda fi 'run rhithyn o gof yn nghylch beth own i'n neyd yno, ond yr own yn cerdded yn mlan gyda thrad dolurus a gweidlyd, ac yr own yn treio fy ngore i edrych os gwelswn i ryw fan neu ddernyn o graig lle gallswn i ishte i lawr a gorphws, ond nid odd dim ar wyneb ton deiar yn y golwg; o ganlyniad, ymlusges yn mlan yn flinedig a sychedig gan bo'n a blinder, pan y gweles, er fy nychryn, fod y teid yn dwad miwn yn gyflym, ac y byse myn amser byr yn fy nal a mynd drostoi, ac yr oedd y twllnos, cofia di, wedi dwad erbyn hyn. Ifor bach, mi dimles y nghalon yn soddi yndoi, pryd y gweles yn y pellder draw ole gwan yn dysgleirio, a mi feddyles ar unwaith mai rhaid taw gole ydoedd yn dwad orwth fwthyn rhyw bysgotwr. Ar hyn, mi dynes fy hun ataf, a mi stretches pob nyrf flinedig yn fy ngorff, canys yr odd y gole, dialla di, yn golygu i mi ychydig o orphws, yn nghyd â dracht o ddwr. Yr own wedi cisho tori fy sched dipyn cyn hyn gyda dyferyn o ddwr y môr, ond nath hyny ddim dioni'n y byd i fi, ond hala mwy o sched arnoi. Felly, mi bwres hi mlan gore galswn i pan, er fy rhyfeddod, mi welswn y gole'n dwad yn fwy ac yn fwy, ac yn llawer dysgleiriach, a mlan â fi o hyd, ac 'rodd hi erbyn hyn yn dywyll, weldi. Yn nes, ac yn nes a fi at y gole o hyd, ac er fy mraw, mi ganfyddes yn y diwedd taw dwad orwth balas mawr rhyw wr boneddig odd e, ac fe neidws y nghalon i bron o'i lle, wath alswn i byth a mentro miwn yno. Fyse nhw ddim yn mofyn yr hen Jaci tlawd a blinedig yn y palas crand. Ar hyn, mi ddychmyges mod i'n clywed swn canu melus iawn; ond meddyles wedyn taw fi odd yn gwneuthur camsyned, ac mai rhaid taw swn y môr odd yn effeithio ar alluoedd y clyw, ond trw'r cyfan ymlan own i'n mynd fel pe byse rhyw allu anweledig yn fy attynu yn debyg ag y mae rhyw fagnet yn tynu'r nedwydd dan grynu i gyfeiriad y pegwn. Yna mi golles pob hunan-bon a phobpeth arall oddieithr y wybodaeth o'r lleishe a'r canu melus ag odd yn boddi fy holl deimlade, pan, fachgen, ar amrantiad, dyna byrth a dryse y palas yn cael eu towli ar agor led y pen, nes gwasgar goleuni pelydrol ar dwllwch y tufas, a chyn i mi allu ca'l amser i ddeffro o'm rhyfeddod drysedig, dyma fform rhyw berson yn dwad atai gyda dwylo agored a llais wedi ei acen-nodi gyda'r fath dynerwch a mwyneidd-dra a llais rhyw fam gariadus. 'Dere a chroesaw,' meddai, "yr ydym ni wedi aros i ti yn hir, ac wedi gwylio dy bererindod blinedig tuag yma.' 'O, Syr,' mi dries ine ateb, 'yr ydych wedi gneyd mistêk; maddeuwch y mod i wedi trespasu mor agos, oblegyd dw i ddim yn un ffrynd cariadus i chi, syr—dim ond yr hen Jaci o'r Llidiart odw i;' ond gwenu nath y wyneb, ac O, dyna beth odd gwên o dyner dosturi a chariad i ti. Ac medde'r llais yn mhellach, 'Ti yw y ddafad yr hon unwaith aeth ar ddisperod, ac mi chwilies *lawer* i filldir flinedig i dy ffeindio di, ac i dy ddwyn di yn ol i'r gorlan. Ie, ti yw y ddafad y gorfoleddes yn ei chylch, am yr hon y canodd yr angylion gân o lawenydd, a rwyt ti byth oddiar hyny wedi cadw yn ngolwg y gorlan, a dyma fine yn dy anerch yn awr, 'Da was da a ffyddlawn, dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd!' Ar hyn, dyma'r llen yn syrthio oddiar fy

llyged, edryches i fyny, ac wele! mi ganfyddes taw'r Arglwydd Iesu oedd yn ymddyddan â mi, ac ymaflodd yn fy llaw i fy arwen y miwn pan ddihunes, gan dy ffeindio di yn sefyll wrth erchwyn y gwely. Ond paid a thrwblu am dy fod wedi fy nihuno, oblegyd y mae adsain y canu melus a'r llais cariadus yn aros yto yn fy nghlyste, a chyn hir, byddaf yn ddyogel tu fewn i'r gorlan, yn ddyogel tu fewn i byrth y Gaersalem Newydd."

Yr oedd ei nerth yn mhell cyn iddo ddiweddu adrodd ei freuddwyd yn pallu yn gyflym, ac yr oedd ei lais wedi myn'd mor eiddil a chrynedig, nes gorfu arnaf benlinio wrth ei wely, a gogwyddo fy nghlust yn agos at ei wefusau i wrando sillau ei frawddegau olaf, oblegyd yr oeddent yn fwy gwerthfawr yn fy ngolwg, er ieuenged oeddwn, na pherlau'r gwledydd pell, ac yr oedd rhyw ddyhead gwancus am eu clywed wedi fy llwyr feddiannu. Yr oedd symlrwydd cyffrous a phlentynaidd y freuddwyd, dan y fath amgylchiad, yn cyfateb ymddadblygiad ieuanc fy meddwl ar y pryd, a thrwy hyny, yr oeddwn yn teimlo ynddynt y cyfaredd hwnw na allaswn, ysgwaethiroedd, ei deimlo'r funyd bresenol ar amgylchiad cyffelyb. "Byddaf yn ddyogel tu fewn i byrth y Gaersalem Newydd!" Dyna eiriau olaf yr hen Jaci dduwiol mewn byd o amser, ac ni chafodd neb y fraint o'u clywed ond fy hun, os nad oedd bodau gwynfaol yn gwylio ei awr olaf gyda mi, ac yn eu hysgrifenu yn Llyfr y Bywyd. Y mae eu swn heddyw yn fy nghlustiau megys cerddoriaeth hyfryd yn marw yn y pellder. Disgynasant oddiar ei wefusau megys "Odl ber, ar daith o fiwsig i Orseddfainc Ner." Gyda'i fod yn gorphen eu llefaru, cauodd ei lygaid, ac megys baban yn syrthio i freichiau cwsg, gollyngodd ochenaid egwan, a syrthiodd ei yspryd am byth i freichiau Duw.

Jaci wedi marw! Mae'r son fel mellten wedi myn'd drwy'r pentref. Mae pawb o'r cymmydogion wedi ymgynnnll yn nghyd o flaen drws y bwthyn yn ymddadleu'r golled fawr ar ei ol, y gwragedd yn wylo, a'r plant yn dilyn eu hesiampl oblegyd yr oedd gan Jaci air a gwên garedig i ni oll. Nid oedd daioni bywyd Jaci erioed wedi cael ei gyflawn sylweddoli hyd yr awr hon—awr ei farwolaeth. Yn y modd hwn y mae marwolaeth yn creu mawredd. Nid ydym yn fynych yn gwybod fod angel yn byw yn ein plith nes ydym yn canfod ei aden ymadawol. Yr oedd dylanwad ei rinweddau yn gweithredu'n ddystaw, yr oedd yn hollol anymwybodol o hono ei hun, yn ymsymmud yn ddidwrw, yn debyg i'r gornant fechan drwy y goedwig; yn cilio o'r neilldu, fel pe tae, rhag dangos ei hun, mor fwyn ag awel yr haf, ac yn debyg i'r awel nid oedd yn derbyn llawer o sylw, etto yn anadlu bendith.

Nid mewn ysplander talent ddysglaer, gref,
Y llechai'i fawredd, ond mewn ddystaw fyw
Egwyddor crefydd drwy rinweddau da.
Os yw y da'n guddiedig lawer tro
I lygad pwl y byd, er hyn i gyd
Fe'i teimlir yn ei ddystaw nerthol waith
Fel rhosyn mewn unigedd anial dir,
Flodeua fel o wydd ffwdanus fyd

Ac etto'n harddu'r fan, a'i hyfryd sawr
Yn balmaidd berarogli'r grwydol chwa.

Mae llawer i ddyn wedi ymladd brwydrau ar faes y gad, ond heb feddu unrhyw arf i ymladd ag awr olaf einioes. Mae llawer i fardd wedi darlunio'r awr hono mewn iaith wlithog a blodeuog, ond yn suddo odditani pan ddaw ato ef ei hun. Eithr dyna sut y bu farw Jaci o'r Llidiart. Yn deg a dysglaer megys un yn ymbriodi ei gariad, ag y mae wedi hir ddymuno am dani, yr aeth i gyfarfod ar wyryf, marwolaeth. Ni ddysgleiriodd gwynebau y tri llanc a rodiasant yn y ffwrn dân gyda mwy o harddwch. Yr wyf wedi adrodd yr ystori i lawer o'm ffryndiau, a diau os caf fywyd, yr adroddaf hi, i lawer etto cyn yr af i gyfarfod ag ef yr ochr draw.

Welaist ti yr haul yn machlud hwyrddydd haf i'w nosawl fedd,
Ac enfysog wawr tangnefedd yn dysgleirio yn ei wedd?
Welaist ti y gwawl linellau wedi i'r haul i fyn'd i lawr,
Liwient wybren y gorllewin megys môr o borphor wawr?
Yn gyffelyb y machludodd yr hen Jaci fel i'w fedd,
A dihalog liwiau rhinwedd fel pe yn enfysu ei wedd;
Gwawl linellau ei gymmeriad erys ar ei ol o hyd,
Gloewant wybren ei ddylanwad a phrydferthwch byw i gyd.
Meddai y cymmeriad hwnw ddeil i'w brofi yn mhob pair,
Nid gwael feter a addurnwyd a golchiadau hylif aur.

Mae yn bod dair coron; un, y goron a wisgir gan freninoedd y ddaear; y llall—a'r hon sydd yn llawer mwy anrhydeddus—y goron ag y mae Athrylith yn ei gwisgo—coron yn debyg i hono y gwisgwyd y doethwr Petrarch a hi yn mhrif ddinas Groeg; ond y mae coron uwch etto yn bod, y goron hono ag y mae rhinweddau Jaci o'r Llidiart yn ei gwisgo yn y ddinas dragwyddol.

JACI'S DEATH.

Softly and slowly the shadows fell, Hiding the form I had loved so well;
Hiding the smile of that placid face And the outline of hands in their folded grace,
The blue concealed in the darkening skies As the blue was out of those kindly eyes.
The birds had sunk into silence deep, They had lulled him off to his long last sleep;
And the flowerets drooped their fair heads low In the window small—he had loved them so.
He had smiled at them when the days were warm, When their perfume rose with its soothing charm;
He thought they were visitants from above—From the beautiful world of God and Love.
The wind had sighed itself off to sleep, And left the stars their own vigil keep;
And the children had stopped their merry play, For Jaci, they said, was worse that day.

So in peace and beauty the country lay When Jaci entered the far away.
Jaci had entered the haven of rest, As a tired child on its mother's breast;
No thought of darkness or gloom, or dread, But with simple faith in Love instead;
And his name is spoken in reverence still As a man after God's own heart and will.

MRS. D.

MEWN AMHEUAETH—BETH ?

"AWR ofnadwy," meddai Robertson, "yw'r awr hono pan y mae'r enaid yn dechreu cael allan fod y propiau ar y rhai y mae yn ddall wedi pwyso yn hir, lawer o honynt yn bydron, ac yn dechreu eu drwgdybio i gyd. Yn yr unigrwydd ofnadwy hwnw, pan y mae y rhai hyny, a ddylent fod yn gyfeillion ac yn gynghorwyr iddo, yn edrych yn gilwgus ar ei amheuon, ac yn ceisio ganddo eu cuddio—amheuon, cofier, er dim a wyr efe, allant fod yn tarddu o ffynnon gwirionedd ei hun; i ddiffodd fel pe byddai fflachiad o uffern, yr hyn, er dim a wyr efe, a ddichon fod yn belydr o oleuni o'r nefoedd; pan y mae pob peth megys wedi ei fantellu mewn ansicrwydd ofnadwy. Nid oes ond un ffordd y gwn I y dichon dyn ddyfod allan o'i ing yn ddianaf, a hyny yw, dal yn gadarn wrth y pethau hyny ydynt yn parhau yn sicr—egwyddorion ardderchog a syml moesoldeb. Yn yr awr dywyllaf y bydd yn rhaid i'r enaid dynol basio trwyddi, nad beth bynag arall sydd yn amheusmae yr egwyddorion hyn yn sicr. Hyd y nod os nad oes yr un Duw, na'r un bywyd dyfodol, mae yn well hyd y nod wed'yn bod yn garuaidd na bod yn hunangar, gwell bod yn foesol nag yn anfoesol, gwell bod yn eirwir nag yn anwir, gwell bod yn ddewr a gwrol na bod yn llwfrddyn. Bendigedig uwch pob bendigedigrwydd daearol yw cyflwr y dyn sydd, yn nghanol tywyllwch tymhestlog yr enaid, wedi dal yn ffyddiog ac yn ddewr wrth yr hen egwyddorion hynafol a pharchus hyn. Bendigedig yw efe, yr hwn, pan mae'n ansiriol oddifewn ac oddiallan, pan mae'r athrawon yn ei ddychrynu, a'i gyfeillion yn cadw yn mhell oddiwrtho, sydd trwy'r cwbl wedi glynu wrth ddaioni a moesoldeb. Bendigedig deirgwaith, am y bydd i'w nos droi yn ddysglaer ddydd. Yr wyf yn appelio at y cyfryw ydynt wedi pasio trwy yr awr hon o ing, ac wedi cael eu traed ar y graig o'r diwedd, tra mae'r tonau wedi ymdawelu odditanodd, a'r cwmmwl diweddaf wedi diflanu o'r awyrgylch fry, gyda ffydd a gobaith ac ymddiried nad ydynt mwy yn draddodiadol yn unig, ond yn eiddo eu hunain—ymddiried na wnaiff na daear nac uffern eu haflonyddu byth mwy."

Da ydyw cofio pan oedd y goleuni wedi dechreu gwawrio arno, ryw dri mis yn ddiweddarach, iddo ysgrifenu fel y canlyn: "Mae arweddion y meddyliau a godant yn naturiol yn fy mynwes yn cynnyddu a dyfnhau y rhagolwg am orphwysfa—gorphwysfa yn Nuw ac mewn cariad—dwfn ymlonyddiad yn y wlad dawel hono, lle bydd dirgelion y bywyd rhyfedd hwn wedi dyfod yn eglur, a'r lle bydd y galon fwyaf

gythryblus o'r diwedd yn bwrw ei baich i lawr." Daeth "Duw a Chariad" y pryd hwnw yn sylweddion sefydlog yn ei feddwl, ac aeth ei ffydd yn ddyfnach ac yn ddyfnach hyd y diwedd. C. F.

BETH YW BOD YN RHYDDFRYDIG.

Yr wyf fi o'r farn mai bod yn rhyddfrydig yw, nid dal y syniadau hyn neu y syniadau ereill—nid sefyll yn erbyn golygiadau pobl ereill yw bod yn rhyddfrydig, ac nid bod heb syniadau o gwbl yw. Agwedd y meddwl yw rhyddfrydigrwydd — tueddfryd y galon at wirionedd. Rhyddfrydigrwydd yw yr yspryd yn cael y trechaf ar y llythyren mewn crefydd.

Y meddwl yw mewn cyflwr o dyfiant, yr hyn a'i gwahaniaetha oddiwrth iawnffyddiaeth, sydd yn gysgod o feddwl wedi darfod tyfu, sydd yn derbyn y dybiaeth ei bod wedi cyrhaedd y terfyn mewn crefydd, ac yn hawlio fod ei hopiniynau yn anffaeledig.

Mae bod yn rhyddfrydig yn cydnabod fod pob opiniwn yn cyfnewid fwy neu lai, ond y mae yn ymlynu yn fwy cyndyn fyth wrth yr egwyddorion hanfodol—yr argyhoeddiadau mawrion canolog ag ydynt yn penderfynu cymmeriad unigolion a phobloedd.

Beth yw yr egwyddorion hyn? Un o honynt yw, y gallwn ni ymddiried i eirwiredd y rheswm dynol—fod Meddwl Dwyfol yn rheoli y bydysawd, ac fod ein meddwl dynol ni yn adlewyrchiad ffyddlon o hono. Mae yn wir nad yw ein rheswm yn dysgu pobpeth i ni; ond cyn belled ag yr ä, gallwn ymddiried ynddo, ac mae yn myned yn ddigon pell i roddi i ni esponiad gwirioneddol ar natur ac athroniaeth briodol i reoleiddio ein bywydau wrthi.

Yn mhellach, mae bod yn rhyddfrydig yn maentumio fod pob meddwl yn rhydd—fod pob ymgais i'w grebachu o fewn terfynau erthyglau ffydd, a thrwy hyny attal ei dyfiant, yn drosedd yn erbyn natur ac yn annuwioldeb yn erbyn Duw. Mae y gwir ryddfrydwr yn cydnabod y dylai fod cynnydd mewn crefydd fel yn mhobpeth arall. Ceidw ei feddwl yn agored i bob dylanwad a ychwanega at ei wybodaeth, a canga ei feddwl, ac a ddiwyllia ei gymmeriad. Ymegnia dyfu fel mae'r planigyn yn tyfu, fel mae'r goeden yn ychwanegu haen at haen, fel mae'r greadigaeth yn dadblygu amcanion byth-gynnyddol ei Gwneuthurwr.

Creda y gwir ryddfrydwr hefyd, er fod crediniaeth yn dylanwadu yn ddwfn ar gymmeriad, mai cymmeriad yw gwir brawf crediniaeth—fod gweithredoedd dynion yn amlygu ac yn cyfiawnhau neu yn condemnio eu credoau. Deil fod meddwl yn dda, ond fod bywyd yn well; ac mai efe sydd yn fwyaf tebygol o arwain bywyd godidog ag sydd yn meddu ar y weledigaeth gliriaf o'r gwirionedd, a'r hwn sydd yn fwyaf ffyddlon i'r hyn yw ei safon.

Drachefn, bod yn rhyddfrydig yw credu mewn didwylledd mewn materion o ffydd. Mae yn dadgan yn ddiofn ei argyhoeddiadau gonest.

Ffieiddia bob math o lwfrdra; câs ganddo gelu yr hyn a greda; ac ynfyd yn ei olwg yw pob rhagrith. Siarada y gwirionedd, ond siarada ef mewn cariad, oblegyd cariad yw yr elfen sydd yn toddi hyd y nod anystwythder dogma a thraddodiad. Nis gall un meddwl fod yn hollol rydd os yw yn coleddu yspryd câs, dirmygus, yn erbyn meddwl arall.

Mae y gwir ryddfrydwr, nid yn unig yn goddef, ond yn caru ei gyd-ddynion. Mae yn hir-ymarhous tuag at eu camsyniadau, ac yn cydymdeimlo â'u hymdrechion am y gwirionedd. Parcha yr hyn a barchant hwy. Fe ŵyr pa mor araf yw y cyfnewidiad o un math o opiniynau i fath arall. Am hyny, nid yw yn fyr ei amynedd at gamsyniad, os yw yn gamsyniad a gredir ganddo yn yspryd y gwirionedd. Yr unig bechod anfaddeuol yn ei olwg yw diffyg cariad—calon yn amddifad o gariad, meddwl annyoddefgar.

Dyna fy atebiad i'r gofyniad, "Beth yw bod yn rhyddfrydig?" Dyma y pethau rhyddfrydig y mae'r rhyddfrydwr yn eu hamgyffred, ac wrth y rhai mae'n bwriadu sefyll. Dyma beth yw yspryd mwyaf mewnol Cristionogaeth. Mae yr awr yn dyfod pan addolo y gwir addolwyr y Tad mewn yspryd a gwirionedd." Hyn yw dysgeidiaeth Paul—"Lle mae yspryd yr Arglwydd, yno mae rhyddid." Yn ddiweddaf, dyma beth yw tymher ac amcan llywodraethol yr Eglwys Undodaidd, yr hwn sydd yn credu fod pawb ydynt yn chwilio am y gwirionedd yn un. C. W. W.

TYSTEB I'R PARCH. THOMAS THOMAS, GREEN PARK.

Bwriedir cyflwyno tysteb i'r Parch. Thomas Thomas, Green Park, gan gynnulleidfaoedd Pantydefaid a Chapelygroes, fel arwydd o barch iddo ar derfyn ei waith yn y weinidogaeth dros yspaid o saith mlynedd a deugain. Gan Bwyllgor cynnulleidfa Pantydefaid, appwyntiwyd y cyntaf o'r canlynol yn ysgrifenydd, a'r ail yn drysorydd—D. J. Alltrodin Arms, Llandyssul, South Wales; W. Thomas, Rhydowen Shop, Llandyssul, South Wales. Mae tanysgrifiadau Pantydefaid yn barod dros ddeugain punt. Appwyntiwyd yn ysgrifenydd a thrysorydd yn Nghapelygroes y canlynol—D. Jenkins, Blaenwaun, Llanwnen, Nr. Llanybyther; — Davies, Ffynonfair, Llanwnen, Nr. Llanybyther. Derbynir tanysgrifiadau gan yr ysgrifenyddion a'r trysoryddion.

Isod y mae tanysgrifiadau a dderbyniwyd gan Bwyllgor Pantydefaid. Gwneir hwy yn gyhoeddus drwy yr Ymofynydd, am fod llawer y tu allan i'r ddwy gynnulleidfa wedi mynegu eu dymuniad i gyfrannu at y dysteb:—Mr. Timothy Evans, Penlan, £5; Mr., Mrs. a Miss Thomas, Wissyn, £5; Mr. W. Thomas, Rhydowen Shop, £5; Mr. Evans, Alltyrodyn Arms, £2 2s.; Mr. a Mrs. Evans, Tregroes, £2 2s.; Mrs. Thomas, Cwmeinon, £2 2s.; Mrs. Rees, Clifton Terrace, Llandyssul, £2 2s.; Mri. Thomas ac Evans, Llandyssul, £2 2s.; Mr. John Jones, Camnantfach, £2. 2s.; Mr. G. W. Potter, Ferryside, £2 2s.; Misses Jones, Richmond Villa, £1 1s.; Mr. W. James, Brynhyfryd,

£1 1s.; Mr. E. Evans, Shop, Llandyssul, £1 1s.; Mr. D. Evans, Porth, £1 1s.; Capt. W. Davies, Rhydowenfach, £1 1s.; Mr. James Jones, Moelhedog, £1 1s.; Mr. R. Evans, Penlan, £1; Miss H. Davies, Maesyffin, 10s. 6ch.; Mr. W. Thomas, Fronwen, 10s. 6ch.; Mrs. Evans, Gyfeile, 10s. 6ch.; Mr. Jenkins, Gwarllwynoidas, 10s. 6ch.; Capt. J. Lloyd Jones, Prengwyn, 10s.; Mr. John John, Hyol, 10s.; Mr. John Rees, Cambrian, 5s.; Mr. D. Parry, Clettwr Cottage, 5s.; Mr. D. Thomas, Cloth Hall, 5s.; Mr. E. Jones, Gelligron, 5s.; Mr. T. Jones, Tregroes, 5s.; Mr. Thomas John, Rock, 5s.; Mr. Thomas Thomas, Pontshan, 5s.; Mr. a Mrs. Catherine Jones, Prengwyn, 4s.; Mr. Samuel Thomas, Pennant, 4s.

Manion ac Hanesion.

CEENCOED.—Cynnaliodd Ysgol Sul yr Hen Dŷ Cwrdd ei *pic-nic* blynyddol yn Dolygaer, Gorph. 23ain, pryd y cafwyd gwledd odidog.

Y CYRDDAU BLYNYDDOL.—Cynnaliwyd hwy yn Mhantydefaid ar yr 20fed a'r 21ain o Fehefin, ond nid ydym wedi derbyn adroddiad o'r hyn a wnaethpwyd yno.

Y PARCH. E. W. LLOYD.—Bydd hanes bywyd Mr. LLOYD, yn nghyda darlun o hono yn ein nesaf.

CWMBACH.—Cynnaliodd y gynnulleidfa yn y lle yma eu gwyl de eleni dydd Llun, Mai 21ain, 1894, pryd y daeth yn nghyd nifer lluosog o gyfeillion o Ferthyr, Dowlais, Cefn, Aberdar, Mountain Ash, a Phontypridd. Yr ydym yn teimlo yn ddiolchgar i'r oll o honynt am eu caredigrwydd. Da genym ddweyd fod y tê parti a'r gyngherdd wedi troi allan yn llwyddiannus iawn, tu hwnt i'n dysgwyliadau goreu.

Dau englyn a gyfansoddwyd i "Delyn Ifan" (sef gweithiau barddonol y diweddar Evan Thomas, Horeb), yr hon sydd ar ddyfod allan o'r wasg:—

Hollol lwys a llaw lân—yn ei thywys;
Gwnaeth awen goeth eirian
Daenu mel ar danau mân,
Henafol "Delyn Ifan."

Rhyw fudd a swyn i'wr'feddu—a geir yn
Ei rhagorol ganu;
Iselhad i oesau lu
Mwy iddynt beidio'i meddu.

Cwrtnewydd. GWARNANT WILLIAMS.

Marwgofion.

Mai 6, o'r ddarfodedigaeth, yn 30 oed, John Thomas, mab Evan a Margaret Thomas, Siop Cilrhywe, Capel Dewi. Aeth yr ymadawedig yn glerc i un o *warehouses* Llundain flynyddau yn ol, ac arosodd yno hyd ei farwolaeth. Yr oedd o rodiad dichlynaidd, ac yn Gristion yn ystyr helaethaf y gair. Cefnder ydoedd i'r diweddar Barch. W. E. Davies, Cribin. Dydd Gwener, yr 11eg, dygwyd ei gorff gyda'r tren i Landyssul, a chladdwyd ef yn nghladdfa Llwynrhydowen, pan y gweinyddodd y Parch. W. J. Davies, gweinidog y lle, ar yr achlysur. Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig.

Mehefin 15, Mrs. Martha Davies, anwyl briod Mr. Daniel Davies, Lletty'rlluwch, Cellan, yn 55 mlwydd oed. Ar ol cystudd maith a phoenus, ar y dydd uchod, cyrhaeddodd derfyn eithaf ei thaith ddaearol, syrthiodd y ty o glai, ac ehedodd yr yspryd anfarwol i fyd gwell ac uwch i drigiannu, er mawr golled i'w phriod a'i phlant. Gweinyddwyd arni yn ei chystudd yn dyner, gofalus, a diflino, gan ei phriod a'i merch, a'r plant ereill, o

honynt hwythau, o'r hynaf hyd yr ieuengaf, a deigryn yn eu llygaid, a phryder yn eu gwedd, yn barod i wneyd yr oll yn eu gallu i geisio lleddfu doluriau, ac adferu iechyd eu mam dyner ac anwyl; ond nid oedd tynerwch, na gofal, na gwasanaeth anwyliaid, na medrusrwydd meddygon, yn ddigon i luddias angeu i gyflawnu ei waith. Yr oedd yn fenyw hynod dawel a phwyllog, yn briod ffyddlon, ac yn fam dyner a darbodus, fynychaf yn hawddach ei gwel'd na'i chlywed, a chysur ei theulu bob amser yn agos at ei chalon. Bu'n aelod ffyddlon am flynyddau lawer o eglwys fechan Caeronen; a phan yn colli ffyddloniaid fel hyn o un i un, mae pryder, yn aml, yn gofyn pwy sydd i dd'od i lanw lle y ffyddloniaid hyn. Gadawodd i alaru ar ei hol briod a chwech o blant. Ar ddydd ei hangladd, daeth torf hynod luosog yn nghyd i ddangos eu cydymdeimlad â'r galarwyr, a'u parch i goffadwriaeth yr ymadawedig, ac i hebrwng y corff lluddedig i'r bedd yn mynwent Caeronen. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan R. C. Jones, gweinidog y lle.

Mehefin 17, John Evans, baban bychan Mr. John Evans a Mrs. Elizabeth Evans, Treherbert, Pencarreg, ger Llanbedr, yn dair wythnos oed. Claddwyd corff y bychan yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan R. C. Jones.

Mehefin 21, yn 21 oed, Sarah Jane Lewis, merch Edward a Jennet Lewis, Craigtrebanos, ger Pontardawe. Fel y gwelir, bu farw gwrthddrych ein cofiant yn mlodau ei dyddiau, a hyny ar y dydd hwyaf yn y flwyddyn. Nid oedd iechyd yr ymadawedig yn dda er's rhai misoedd, blinid hi gan fysedd oerion y ddarfodedigaeth.

"Bychan yw'r byd heb iechyd,
Er ei gael yn aur i gyd."

Hynodrwydd mwyaf yr ymadawedig oedd ei llawenydd. Yr oedd yn llawen bob amser, hyd y nod ar ei chlaf wely. Credwn iddi wneyd sylw trwyadl o'r adnod hon, "Byddwch lawen yn wastadol." Yr oedd yn aelod o eglwys henafol Geillionen er's llawer o amser, a gwelir ei heisieu yn y gymmydogaeth a'r cylchoedd yn fawr. Gwelwyd ei heisieu hefyd yn yr wyl de a gynnaliwyd yn Geillionen, o herwydd yr oedd yn hynod barod i weinyddu wrth y byrddau bob amser. Cydymdeimlir â rhieni yr ymadawedig yn eu galar ar ol eu hunig ferch, yr hon (ni a obeithiwn) a etifedda fywyd tragwyddol. Y Sadwrn canlynol, daeth tyrfa fawr o berthynasau a chyfeillion yn nghyd i dalu iddi'r gymmwynas olaf yn hwn o fyd. Daearwyd ei phabell briddlyd wrth gapel yr Alltwen, Pontardawe. Gweinyddwyd ar yr achlysur pruddaidd gan y Parch. R. Rees, Alltwen. Heddwch i'w llwch.

Haelionus fendithion Efengyl Mab Duw
Fo'n gyssur anfarwol i'r teulu;
A'r holl berthynasau, dymuniad pawb yw,
Nad iddynt heb obaith alaru.

BEN DAVIES.

Gorphenaf 1, yn David Street, Trecynon, Aberdar, Sarah Jane, merch y diweddar Thomas D. Howells a Margaret ei wraig, yn 27 oed. Cafodd gystudd hir, rai blynyddau, yr hwn a oddefodd gydag amynedd canmoladwy. Yr oedd yn aelod selog yn yr Hen Dy Cwrdd, ac yn awyddus am ei lwyddiant yn mhob cangen o hono. Yn anfynych y byddai ei lle yn wag tra y gallai. Aeth i'r gymmanfa ganu i Abertawe, ac yr oedd yn y cwrdd y Sul diweddaf cyn ei marwolaeth. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch. J. Fisher Jones ac R. J. J., a chladdwyd yn y *Cemetery*.

Gorphenaf 15, Evan Daniel Cynfyn Jones, unig fachgen Mr. Lewis Jones a Mrs. Letitia Jones, Tanfforest, Siliau, yn 13 mis oed. Claddwyd gweddillion y bychan yn mynwent Brondeifi, a daeth torf luosog yn nghyd i ddangos eu cydymdeimlad â'r galarwyr druain yn eu trallod. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan Mr. Morris, ficer y plwyf, ac yn y capel a'r fynwent gan R. C. Jones.

Gorphenaf 17, yn South Avenue, Gadlys, Aberdar, o'r ddarfodedigaeth, Lizzie, merch David Jones, *engineer*, yn 20 oed. Dyoddefodd gystudd hir a phoenus yn hynod dawel a dirwgnach, a phan syrthiodd i'w hun olaf gadawodd hiraeth mawr ar ei hol. Treuliodd ei hoes mewn cyssylltiad â'r achos yn yr Hen Dŷ Cwrdd, bob amser yn ffyddlon ac yn weithgar, nes iddi gael ei gorddiwes gan glefyd a'i hanalluogi; a phan fethodd fod yn bresennol yn y corff, yr oedd yno o hyd yn yr ypryd. Gadawodd esiampl ar ei hol, y byddai yn dda i'r achos goreu pe gwelid mwy o efelychu arno. Fel hyn y teneuir ein rhengoedd, ac fel hyn y mae galw difrifol am ereill i ddyfod i lanw'r adwy. Gwasanaethwyd gan R. J. J.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

Y Parch. E. M. Lloyd, Cwmbach.